**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO a gynhaliwyd drwy fideogynadledda ddydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2024**

YN BRESENNOL: Mr Alan Davies (Cadeirydd) y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans a Mark Strong, ynghyd â Mr Andrew Blackmore a Mrs Caroline Whitby

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Gareth Lloyd

Archwilio Cymru: Mr Jason Blewitt a Mrs Alison Lewis

Swyddogion yn bresennol: Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Swyddog Monitro; Mr Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael; Ms Stephanie Land, Uwch Archwilydd; Mr Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi a Pherfformiad; Mr Greg Jones, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cymorth Cynnar; Mrs Sarah Groves-Phillips, Rheolwr Corfforaethol -Gwasanaethau Cynllunio; Mrs Katy Sinnett-Jones, Swyddog Llywodraethu; Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(2.00pm-3:40pm)

**1 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorydd Keith Henson ynghyd â Mrs Alex Jenkins, Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

**2 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Dim.

**3 Materion Personol**
Dim.

**4 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2024 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**
CYTUNWYD i gadarnhau bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2024 yn gywir.

Materion yn Codi
Dim.

**5 Cofnod o Gamau Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
CYTUNWYD i nodi cynnwys Cofnod o Gamau Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel y'i cyflwynwyd.

**6 Adroddiadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaethau ac Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion**

Ystyriwyd Adroddiadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaethau ac Ymatebion Cyngor Sir Ceredigion. Roedd yr Adroddiad yn amlinellu Adroddiadau a Diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaethau ynghyd ag ymatebion y Cyngor ynghylch y cynnydd a wnaed o ran y cynigion a'r argymhellion. Roedd yr adroddiad mewn tair rhan:

a) Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
b) Unrhyw waith lleol ynghylch risg a gyflwynwyd / a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
c) Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru

**Y Sefyllfa bresennol**

**a) Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

- Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ceredigion – Chwarter 4

**b) Unrhyw waith lleol ar risgiau a gyflwynwyd/a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

- Archwilio Cymru – Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2022-23 – Cyngor Sir Ceredigion
- Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ceredigion– Cynllun Archwilio 2024
- Archwilio Cymru – Ffurflen Flynyddol Awdurdod Harbwr Ceredigion 23-24

**c) Ffurflenni Ymateb y Sefydliad**

- Archwilio Cymru – 'Craciau yn y Sylfeini?' Diogelwch Adeiladau yng Nghymru 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru | Archwilio Cymru
- Ffurflen Ymateb y Cyngor – 'Craciau yn y Sylfeini?' Diogelwch Adeiladau yng Nghymru
- Cynllun Gweithredu Lleol Rheoli Adeiladu Cyngor Sir Ceredigion
- Archwilio Cymru – Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol – Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Sir Ceredigion – Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol | Archwilio Cymru
- Ffurflen Ymateb – Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol
- Archwilio Cymru – 'Cyfle wedi'i Golli' – Mentrau Cymdeithasol 'Cyfle wedi'i golli' – Mentrau Cymdeithasol | Archwilio Cymru
- Ffurflen Ymateb y Cyngor – Cyfle wedi'i Golli' – Mentrau Cymdeithasol
- Archwilio Cymru – Llamu Ymlaen – Rheoli Asedau Strategol Cyngor Sir Ceredigion: Llamu Ymlaen – Rheoli Asedau Strategol | Archwilio Cymru

- Ffurflen Ymateb y Cyngor – Llamu Ymlaen – Rheoli Asedau Strategol – Cyngor Sir Ceredigion

**d) Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru**
Dim

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i: -
(i) nodi adroddiadau a diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaethau;
(ii) nodi ymateb y Cyngor (Ffurflenni Ymateb y Rheolwyr / Sefydliad) a mewnbwn y Swyddogion ac Archwilio Cymru yn y cyfarfod; a
(iii) ychwanegu adroddiadau rheoleiddwyr eraill (gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn) fel eitem sefydlog pan gyflwynir adroddiadau yn y dyfodol

7 **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol – Chwarter 4**
Ystyriwyd adroddiad y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol am Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Chwarter 4. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn fodlon bod yr Adain Archwilio Mewnol yn ymgymryd â gwaith priodol a digonol i ddarparu sicrwydd realistig ar ddiwedd y flwyddyn gan ychwanegu gwerth a chynorthwyo'r Cyngor wrth gyflawni ei amcanion.

CYTUNWYD i nodi'r gwaith a wnaed a'r sefyllfa bresennol o ran y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

8 **Adroddiad Camau Rheoli Archwilio Mewnol 1/10/23 – 31/3/24**
Ystyriwyd yr Adroddiad ynghylch Camau Rheoli Archwilio Mewnol ar gyfer y cyfnod rhwng 1/10/23 a 31/3/25. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn rhoi diweddariad i'r Aelodau am y gwaith a wnaed gan yr adain archwilio mewnol wrth fonitro a diweddaru'r camau rheoli yn ystod y cyfnod a nodir uchod.

Fel y nodwyd yn Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol, mae Safon Perfformiad 2500 yn nodi bod yn rhaid i Archwilio Mewnol sefydlu proses i fonitro a mynd ar drywydd camau rheoli. Y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol oedd yn gyfrifol am fonitro'r cynnydd a wneir o ran y camau gweithredu hyn ac am gyflwyno adroddiadau gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Roedd yr adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y cynnydd a wnaed gan y rheolwyr o ran mynd i'r afael â'r camau rheoli a gyhoeddwyd yng nghynllun gweithredu'r adroddiadau archwilio mewnol

CYTUNWYD i :
(i) nodi'r gwaith a wnaed a'r sefyllfa bresennol o ran yr Adain Archwilio Mewnol; a
(ii) ailgyflwyno'r diweddariad ar y cofnod o gamau gweithredu i'r pwyllgor i gadarnhau bod y gwasanaethau perthnasol wedi cymryd y camau angenrheidiol

9 **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023/24**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2023, ystyriodd yr aelodau Gynllun Archwilio Mewnol blynyddol 2023/24. Roedd y Cynllun yn rhoi amlinelliad o'r gwaith yr oedd gofyn i'r Adain Archwilio Mewnol ei wneud yn ystod y flwyddyn er mwyn ffurfio barn ynghylch sicrwydd.

Roedd y farn hon yn ffurfio rhan o fframwaith sicrwydd y Cyngor. Roedd Archwilio Mewnol hefyd yn darparu cyngor annibynnol i wasanaethau er mwyn helpu rheolwyr i wella'u mesurau rheoli mewnol, eu dull o reoli risg, a'u trefniadau llywodraethu.

Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn darparu crynodeb o'r gweithgarwch archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024, ac roedd yn ymgorffori barn yr adain archwilio..

Roedd hefyd yn cofnodi'r sefyllfa bresennol o ran adnoddau, a chynlluniau'r adain ar gyfer sicrhau ansawdd, gwelliant a chynnydd.

CYTUNWYD:
i) i gymeradwyo'r adroddiad
ii) y byddai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor yn monitro'r cynnydd a wneir o ran camau gweithredu hwyr ac os na fyddai unrhyw gynnydd wedi'i wneud, byddai'r mater yn cael ei ystyried eto.

10 **Adroddiad Archwilio Mewnol – Atal Twyll 2023/24**

Roedd Adroddiad Blynyddol yr Adain Archwilio Mewnol yn darparu crynodeb o'r gweithgarwch archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth, ac roedd yn ymgorffori barn yr adain archwilio.

Yn y gorffennol, roedd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys adran ar Dwyll, gan amlinellu'r math o waith yr oedd yr Adain Archwilio Mewnol wedi'i wneud yn y maes hwn. Bellach, roedd Adroddiad Atal Twyll yn cael ei gyhoeddi ar wahân gan gefnogi Adroddiad Blynyddol yr Adain Archwilio Mewnol ar ddiwedd y flwyddyn.

CYTUNWYD i gymeradwyo'r adroddiad ar yr amod bod diweddariad yn cael ei roi am nifer y gweithwyr oedd wedi cwblhau'r e-fodiwl hyfforddi gorfodol ynghylch Atal Twyll. Roedd yr Aelodau o'r farn bod canran y gweithwyr a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant (40%) yn isel a bod angen mynd i'r afael â hyn cyn gynted ag y bo modd.

11 **Y Fenter Twyll Genedlaethol – Hunanarfarniad**

Cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru 'Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20' ar 13 Hydref 2020: Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20 | Archwilio Cymru

Roedd yr adroddiad yn nodi bod ‘llwyddiant y Fenter Twyll Genedlaethol yn ddibynnol ar natur ragweithiol ac effeithiolrwydd cyrff sy’n cyfranogi o ran ymchwilio i’r pariadau data. Fe wnaeth y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru a gyfranogodd reoli eu rolau yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2018-20 yn dda. Fodd bynnag, gallai rhai cyrff fod yn llawer mwy rhagweithiol’.
Roedd yr adroddiad yn argymell felly ‘y dylai pwyllgorau archwilio, neu’r hyn sy’n cyfateb i hynny, a swyddogion sy’n arwain y Fenter Twyll Genedlaethol adolygu rhestr wirio hunanarfarnu’r Fenter Twyll Genedlaethol’.
Rhannwyd copi o’r hunanarfarniad a gynhaliwyd yn dilyn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2022/23 er mwyn darparu sicrwydd i’r Pwyllgor bod Cyngor Sir Ceredigion yn llwyr gefnogi’r ymarfer.

Cytunwyd i nodi’r hunanarfarniad yn amodol ar ddarparu diweddariad am y casgliadau i aelodau’r Pwyllgor yn un o gyfarfodydd y dyfodol.

12 **Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ran y Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Ystyriwyd rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ran y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
Er nad oes rheidrwydd ar gynghorau Cymru i baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol, gellir defnyddio’r datganiad:

- fel arf ar gyfer gwelliant corfforaethol;
- i werthuso cryfderau a gwendidau yn y fframwaith llywodraethu; ac
- el rhan o gynllun gweithredu blynyddol

O dan Adran 5, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, roedd yn ofynnol cyhoeddi datganiad blynyddol ar reolaeth fewnol.
O dan fodel CIPFA, roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi datganiad llywodraethu blynyddol er mwyn adrodd yn gyhoeddus ar y graddau y maent yn cydymffurfio â'u cod llywodraethu eu hunain ac roedd yn ofynnol iddynt gynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol gyda’r datganiad cyfrifon.

Felly, roedd diben clir i’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol o hyd wrth asesu arferion llywodraethu da’r Cyngor yn flynyddol.
Ystyriwyd bod y broses bresennol yn gweithio'n dda i roi sicrwydd i'r Pwyllgor a'r Cyngor.
CYTUNWYD i:
(i) nodi cynnwys yr adroddiad;
(ii) argymell bod y Cyngor yn cadw’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a’i fod yn ei ddefnyddio:
i. fel datganiad blynyddol ar reolaeth fewnol,
ii. fel arf ar gyfer adolygu ei drefniadau llywodraethu,
iii. fel arf ar gyfer gwelliant corfforaethol ehangach, i werthuso cryfderau a gwendidau yn y fframwaith llywodraethu ac, fel rhan o gynllun gweithredu blynyddol, i fwrw ymlaen â’r newidiadau y cytunwyd arnynt yn unol â hynny.

iv. i adrodd yn gyhoeddus ar y graddau y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'i Fframwaith Llywodraethu.

**13 Cofrestr Risgiau Corfforaethol**

Rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor i roi gwybodaeth a sicrwydd parhaus bod y risgiau a nodwyd gan uwch reolwyr yn cael eu rheoli'n briodol. Mae hyn yn atgyfnerthu rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ran rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor bod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei rheoli'n briodol.

Yn ystod chwarter 4, nodwyd risg ychwanegol; R025: Diogelwch Tân a Mesurau Amddiffyn ar Eiddo'r Cyngor, ar gyfer y posibilrwydd o'i huwch-gyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Roedd y risg yn ymwneud â maint a chost y gwaith oedd angen ei wneud mewn adeiladau o eiddo'r Cyngor i gydymffurfio â'r rheoliadau tân diweddaraf ac ymagwedd gadarnach gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Cafodd y risg ei hystyried a'i chytuno gan y Grŵp Arweiniol ar 15.5.24 ac roedd wedi'i hychwanegu bellach at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol gyda'r sgôr uchaf o 25 i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol a'r heriau a ragwelir yn y dyfodol.

Cynhaliwyd adolygiad o statws diweddaraf y risgiau yn yr un cyfarfod lle trafodwyd a chytunwyd ar y rhai y gellir eu huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r rheiny y gellir eu his-gyfeirio o'r Gofrestr.

**Isgyfeirio o fod yn risg gorfforaethol i fod yn risg i'r gwasanaeth**

Dim

**Uwchgyfeirio o fod yn risg i'r gwasanaeth i fod yn risg gorfforaethol**

Cadarnhaodd cyfarfod y Grŵp Arweiniol y byddai Risg 025 yn cael ei chynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Roedd yr holl risgiau eraill wedi'u hadolygu ac roeddent yn cynnwys y statws RAG diwygiedig o ran camau lliniaru a sylwadau wedi'u diweddaru.

CYTUNWYD

(i) i nodi'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a oedd wedi'i diweddaru;
(ii) y byddai Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn eu cyfarfodydd nesaf yn ystyried yr eitemau sydd ar y gofrestr ar gyfer eu cynnwys ar eu Blaenraglenni Gwaith, neu byddent yn eu cyfeirio i'r Pwyllgor perthnasol fel y gellid craffu arnynt; a
(iii) y dylid gofyn am eglurhad am yr hyfforddiant ynghylch seibergadernid a roddir i'r gweithiwyr oherwydd y risg sy'n gysylltiedig â'r maes hwn.

14 **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2023-24**

Ystyriwyd fersiwn ddrafft Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2023-24. Byddai Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r Cyngor a byddai'r adroddiad ar ôl hynny yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

CYTUNWYD i gymeradwyo fersiwn ddrafft Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2023/24 fel y'i cyflwynwyd, cyn y byddai'n mynd gerbron y Cyngor.

**15 Blaenraglen Waith**

CYTUNWYD i nodi cynnwys y Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd yn amodol ar y canlynol:
(i) byddai Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael yn cysylltu ag Archwilio Cymru i drafod y rhaglen ar gyfer cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon;
(ii) cael eglurhad a oedd unrhyw Adroddiadau gan Arolygiaethau yn ddiweddar e.e. Adroddiadau gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru nad oeddent wedi'u cyflwyno gerbron y pwyllgor fel y cytunwyd,
(iii) byddai adroddiadau gan arolygiaethau yn cael eu cynnwys fel eitem sefydlog ar yr agenda a hynny fel rhan o'r eitem am adroddiadau'r rheoleiddwyr; a
(iv) byddai adroddiad am ISA260 yn cael ei ychwanegu at yr eitem am y datganiad cyfrifon yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 28 Tachwedd 2024

15 **Unrhyw Fater Arall**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar**

**Cadeirydd:**_____

**Dyddiad:**_____